




HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

HOCI CYMRU

POLISI DIOGELU

OEDOLION



Perchennog y Polisi: Pennaeth Datblygu
Polisi wedi'i gymeradwyo gan: Bwrdd Hoci Cymru
Dyddiad cymeradwyo'r polisi: 1af Rhagfyr 2020
Dyddiad yr adolygiad nesaf: 30ain Tachwedd 2021

CYNNWYS

ADRAN 1: POLISI DIOGELU OEDOLION

Cyflwyniad4
Datganiad Polisi.4
Pwrpas4
Cwmpas.6
Ymrwymadau6
Gweithredu7

ADRAN 2: GWYBODAETH ATEGOL

Pwyntiau Allweddol8
Deddfwriaeth Diogelu Oedolion.8
Diffiniad o Oedolyn mewn Perygl10
Cam-drin ac Esgeulustod10
Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin ac Esgeulustod.12
Egwyddor Llesiant12
Diogelu Person Ganolog.14
Galluedd Meddyliol a Gwneud Penderfyniadau14
Cofnodi a Rhannu Gwybodaeth17
Gwaith Amlasiantaeth18

ADRAN 3: ATODIADAU

Atodiad 1 – Disgrifiad Swydd Enghreifftiol: Arweinydd Diogelu	19
Atodiad 2 – Grwpiau Rheoli Achosion.	20
Atodiad 3 – Ffynonellau o Wybodaeth a Chefnogaeth.	21

ADRAN 1: POLISI DIOGELU OEDOLION

ICYFLWYNIAD

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i Ddiogelu Oedolion yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a chanllawiau cenedlaethol a lleol perthnasol.

Byddwn yn diogelu oedolion drwy sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cadw pob oedolyn yn ddiogel.

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i greu diwylliant o ddim goddefgarwch i niwed i oedolion sy'n golygu bod angen: cydnabod oedolion a allai fod mewn perygl a'r amgylchiadau a allai gynyddu risg; gwybod sut mae cam-drin, esgeuluso neu gamfanteisio ar oedolion yn amlygu ei hun; a bod yn barod i roi gwybod am bryderon diogelu.

Mae hyn yn ymestyn i gydnabod a rhoi gwybod am niwed a brofir yn unrhyw le, gan gynnwys yn ein gweithgareddau ni, mewn gweithgareddau cymunedol neu wirfoddol trefnus, yn y gymuned, yng nghartref y person ei hun ac mewn unrhyw leoliad gofal.

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i arfer diogelu gorau ac i gynnal hawliau pob oedolyn i fyw bywyd heb niwed oherwydd cam-drin, camfanteisio ac esgeulustod.

DATGANIAD POLISI

Mae Hoci Cymru yn credu bod gan bawb yr hawl i fyw heb gam-drin neu esgeulustod waeth beth fo'u hoedran, gallu neu anabledd, rhyw, hil, crefydd, tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu rywedd.

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd diogel a chadarnhaol a diwylliant agored o wrando lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu rhannu pryderon heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt.

Mae Hoci Cymru yn cydnabod bod gan bawb gyfrifoldeb am ddiogelu ac mae wedi ymrwymo i atal cam-drin ac esgeulustod drwy ddiogelu lles yr holl oedolion dan sylw.

Mae Hoci Cymru yn cydnabod y gall iechyd, llesiant, gallu, anabledd a'r angen am ofal a chefnogaeth effeithio ar wytnwch unigolyn. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn profi rhwystrau, er enghraifft, anawsterau cyfathrebu wrth fynegi pryderon neu ofyn am help. Rydym yn cydnabod y gall y ffactorau hyn amrywio ar wahanol adegau yn mywydau pobl.

Mae Hoci Cymru yn cydnabod bod fframwaith cyfreithiol y mae angen i chwaraeon weithredu oddi mewn iddo i ddiogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth ac i ddiogelu'r rhai nad ydynt yn gallu cymryd camau i ddiogelu eu hunain a bydd yn gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer diogelu oedolion ac yn unol â gweithdrefnau diogelu statudol lleol.

Bydd y camau fydd Hoci Cymru yn eu rhoi ar waith yn gyson ag egwyddorion diogelu oedolion gan sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir yn brydlon, yn gymesur ac yn cynnwys ac yn parchu llais yr oedolyn dan sylw.

PWRPAS

Pwrpas y polisi hwn yw dangos ymrwymiad Hoci Cymru i ddiogelu oedolion a sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â Hoci Cymru yn ymwybodol o'r canlynol:

- Y ddeddfwriaeth, y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu oedolion.
- Eu rôl a'u cyfrifoldeb am ddiogelu oedolion.
- Beth i'w wneud neu â phwy i siarad os oes ganddynt bryder ynghylch lles neu lesiant oedolyn yn y sefydliad.



CWMPAS

Mae'r polisi diogelu oedolion hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn berthnasol i bob unigolyn sy'n ymwneud â Hoci Cymru, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, Staff, Hyfforddwyr, Gwirfoddolwyr ac Aelodau, ac i bob pryder am ddiogelwch oedolion wrth gymryd rhan yn ein sefydliad, ei weithgareddau ac yn y gymuned ehangach.

Disgwyliwn i'n sefydliadau partner, gan gynnwys, er enghraifft, clybiau sy'n aelodau, cyflenwyr a noddwyr, fabwysiadu a dangos eu hymrwymiad i'r egwyddorion a'r arferion a nodir yn y Polisi Diogelu Oedolion hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

YMRWYMIADAU

Er mwyn gweithredu'r polisi hwn, bydd Hoci Cymru yn sicrhau'r canlynol:

- Mae pawb sy'n ymwneud â Hoci Cymru yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu oedolion ac yn gwybod beth i'w wneud a phwy i gysylltu â hwy os oes ganddynt bryder ynghylch lles neu lesiant oedolyn.
- Mae unrhyw bryder nad yw oedolyn yn ddiogel yn cael ei gymryd o ddifrif, caiff ymateb prydlon, a'i ddilyn yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Hoci Cymru.
- Bydd llesiant y rhai sydd mewn perygl o niwed yn cael ei roi yn gyntaf a chefnogir yr oedolyn i gyfleu ei farn a'r canlyniadau mae eisiau eu cyflawni. Caiff y safbwyntiau a'r dymuniadau hynny eu parchu a'u cefnogi oni bai fod rhesymau cryfach dros beidio â gwneud hynny (edrychwch ar y Gweithdrefnau Diogelu Oedolion).
- Bydd unrhyw gamau a weithredir yn parchu hawliau ac urddas pawb sy'n gysylltiedig ac yn gymesur â'r risg o niwed.
- Cedwir cofnodion cyfrinachol, manwl a chywir o'r holl bryderon diogelu a'u storio'n ddiogel yn unol â'n Polisi a'n Gweithdrefnau Diogelu Data.
- Mae Hoci Cymru yn gweithredu yn unol â chynghor arfer gorau, er enghraifft, gan UK Sport, Sport England, Chwaraeon Cymru, Sport Scotland, Sport Northern Ireland, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, yr NSPCC, Ymddiriedolaeth Ann Craft.
- Bydd Hoci Cymru yn cydweithredu â'r Heddlu a'r Awdurdodau Lleol perthnasol i gymryd camau i ddiogelu oedolyn.
- Mae holl aelodau'r Bwrdd, y staff, y swyddogion a'r gwirfoddolwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb am ddiogelu oedolion ac wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu oedolion a'r cyfleoedd dysgu priodol ar gyfer eu rôl.
- Mae Hoci Cymru yn defnyddio arferion recriwtio diogel ac yn asesu addasrwydd gwirfoddolwyr a staff yn barhaus i atal cyflogi/defnyddio unigolion anaddas yn y sefydliad hwn ac yn y gymuned chwaraeon.
- Mae Hoci Cymru yn rhannu gwybodaeth am unrhyw un y canfuwyd ei fod yn risg i oedolion gyda'r cyrff priodol. Er enghraifft: y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Gwasanaethau, yr Heddlu, Awdurdod Lleol/Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Wrth gynllunio gweithgareddau a digwyddiadau, mae Hoci Cymru yn cynnwys asesiad o ddiogelwch pob oedolyn rhag cael ei gam-drin a'i esgeuluso a'r risg o hynny, ac mae'n dynodi person a fydd yn bresennol fel arweinydd diogelu ar gyfer y digwyddiad hwnnw.
- Caiff y camau a weithredir o dan y polisi hwn eu hadolygu gan y Bwrdd a'r uwch dîm rheoli yn flynyddol.
- Mae'r polisi hwn, polisiâu cysylltiedig (edrychwch isod) a'r Gweithdrefnau Diogelu Oedolion yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd a phryd bynnag y gwneir newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol a/neu ganllawiau'r llywodraeth, fel sy'n ofynnol gan y Bwrdd Diogelu Lleol, UK Sport a Chwaraeon Cymru o ganlyniad i unrhyw newid neu ddigwyddiad arwyddocaol arall.

GWEITHREDU

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal ei allu i weithredu'r polisi a'r gweithdrefnau hyn.

Er mwyn gwneud hynny bydd y canlynol yn eu lle:

- Llinell atebolrwydd glir yn y sefydliad ar gyfer diogelwch a lles pob oedolyn.
- Mynediad at gyngor cyfreithiol a phroffesiynol perthnasol.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd yn manylu ar sut rhoddir sylw i risgiau i ddiogelu oedolion a sut mae unrhyw adroddiadau wedi cael sylw.
- Gweithdrefnau diogelu oedolion sy'n ymdrin yn effeithiol ag unrhyw bryderon am gam-drin neu esgeulustod, gan gynnwys y rhai a achosir drwy arfer gwael.
- Arweinydd Diogelu/Swyddog Lles (edrychwch ar Atodiad 1).
- Arweinydd Diogelu/Swyddog Lles dirprwyedig ar gyfer digwyddiadau/tripiau/ gweryslyoedd/ cystadlaethau.
- Grŵp Rheoli/Atgyfeirio Achosion sefydlog gyda Chadeirydd wedi'i benodi a Chylch Gorchwyl clir.
- Trefniadau i weithio'n effeithiol gyda sefydliadau perthnasol eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Codau ymddygiad ar gyfer aelodau'r Bwrdd, Staff, Hyfforddwyr, Swyddogion, Gwirfoddolwyr ac Aelodau sy'n datgan dim goddefgarwch i gam-drin ar unrhyw ffurf.
- Asesiadau risg sy'n cynnwys diogelu oedolion yn benodol.
 - Diogelu Plant
 - Bwlio ac aflonyddu
 - Cyfryngau Cymdeithasol
 - Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
 - Asesiadau risg gweithgareddau diogel
 - Codau Ymddygiad a phroses ar gyfer torri'r rhain - Staff, Hyfforddwyr, Swyddogion, Gwirfoddolwyr, Cyfranogwyr/Aelodau, Gofalwyr/ Cynorthwywyr Personol, Cefnogwyr
 - Disgyblaeth a chwynion cyflogaeth
 - Pryderon, Cwynion a Chanmol
 - Chwythu'r chwiban
 - Recriwtio a dewis diogel (staff a gwirfoddolwyr)
 - Cydymffurfio â chontractau
 - Polisi gwybodaeth, diogelu data a rhannu gwybodaeth.

ADRAN 2: GWYBODAETH ATEGOL

PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyfreithiol i roi cefnogaeth i 'oedolion mewn perygl'.
- Diffinnir **oedolion mewn perygl** mewn deddfwriaeth ac mae'r meini prawf a gymhwysir yn wahanol rhwng pob gwlad gartref (edrychwch ar y diffiniadau ar gyfer pob gwlad gartref ar dudalen 12).
- Mae'r ddeddfwriaeth diogelu yn berthnasol i **bob ffurf ar gam-drin** sy'n niweidio llesiant unigolyn.
- Mae'r gyfraith yn darparu fframwaith ar gyfer arfer da o ran diogelu sy'n gwneud **llesiant** cyffredinol yr oedolyn mewn perygl yn flaenoriaeth i unrhyw ymyriad.
- Mae'r gyfraith ym mhob un o'r pedair gwlad gartref yn pwysleisio pwysigrwydd **diogelu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** (y cyfeirir ato fel '**Gwneud Diogelu'n Bersonol**' yn Lloegr).
- Mae'r gyfraith yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ran oedolion nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain (**Galluedd Meddyliol**).
- Mae'r gyfraith yn darparu fframwaith i sefydliadau chwaraeon **rannu pryderon** sydd ganddynt am oedolion mewn perygl gyda'r awdurdod lleol.
- Mae'r gyfraith yn darparu fframwaith i sefydliadau chwaraeon rannu **gwybodaeth a chydweithredu** i amddiffyn oedolion mewn perygl.

DEDDFWRIAETH DIOGELU OEDOLION

Mae Diogelu Oedolion ym mhob gwlad gartref yn cydymffurfio â chyfarwydddebau'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl anabl ac ymrwymadau i hawliau pobl hŷn. Mae'n dod o dan y canlynol:

- Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Deddf Diogelu Data 2018.
- Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018.

Mae'r arferion a'r gweithdrefnau yn y polisi hwn yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth berthnasol a chanllawiau'r llywodraeth.

- Lloegr – Deddf Gofal 2014.
Canllawiau Gofal a Chymorth Statudol (yn enwedig pennod 14) 2014.
- Cymru – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.
- Yr Alban – Deddf Cefnogi ac Amddiffyn Oedolion 2007.
Deddf Cefnogi ac Amddiffyn Oedolion (Yr Alban) 2007 Cod Ymarfer 2014.
- Gogledd Iwerddon – Diogelu, Atal ac Amddiffyn Oedolion mewn Partneriaeth 2015.

Mae llawer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth y DU a'r gwledydd cartref yn effeithio ar ddiogelu oedolion hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth am wahanol fathau o gam-drin a'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, deddfwriaeth sy'n ymdrin â'r canlynol:

- Llofruddio/Ymgais i Llofruddio
- Troseddau Rhywiol
- Priodas dan Orfod
- Lladrad a Thwyll
- Troseddau Casineb
- Rhestru a Gwahardd y bobl anaddas i weithio ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth.
- Ymosodiad Corfforol
- Cam-drin Domestig/ Rheolaeth drwy Orfodaeth
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Caethwasiaeth Fodern a Chamfanteisio ar Bobl
- Aflonyddu



Mae gan bob gwlad gartref ddeddfwriaeth hefyd ynghylch yr amgylchiadau lle gellir gwneud penderfyniadau ar ran oedolyn nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun:

- Cymru a Lloegr – Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Yr Alban – Deddf Oedolion ag Analluedd 2000.
- Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016.
- Mae troseddau penodol yn berthnasol i gam-drin a throseddau rhywiol yn erbyn oedolion heb Alluedd Meddyliol a throseddau penodol lle mae'r cam-drin yn digwydd gan berson sy'n gyflogedig fel gofalwr: e.e. esgeulustod bwriadol a cham-drin bwriadol.

DIFFINIAD O OEDOLYN MEWN PERYGL

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Oedolion yn creu cyfrifoldebau penodol i Awdurdodau Lleol, lechyd a'r Heddlu i ddarparu amddiffyniad ychwanegol rhag cam-drin ac esgeulustod i Oedolion mewn Perygl.

Pan fydd gan Awdurdod Lleol reswm dros gredu bod oedolyn mewn perygl, mae ganddo gyfrifoldeb i ddarganfod mwy am y sefyllfa a phenderfynu pa gamau y mae angen eu rhoi ar waith i gefnogi'r oedolyn. Yng Nghymru a'r Alban, gall yr Awdurdod Lleol gael mynediad at oedolyn i gael gwybod a yw mewn perygl o niwed, er enghraifft, os yw'r mynediad hwnnw'n cael ei rwystro gan berson arall.

Gallai'r camau y mae angen eu rhoi ar waith fod gan yr Awdurdod Lleol (gwasanaethau cymdeithasol fel rheol) a/neu gan asiantaethau eraill, er enghraifft yr Heddlu ac lechyd. Efallai y bydd angen i sefydliad chwaraeon weithredu fel rhan o ddiogelu oedolyn, er enghraifft, defnyddio'r gweithdrefnau disgyblu mewn perthynas ag aelod o staff neu aelod yr hysbyswyd ei fod yn niweidio cyfranogwr. Mae rôl yr Awdurdod Lleol yn cynnwys bod â gweithdrefnau amlasiantaeth sy'n cydlynu'r camau a roddir ar waith gan wahanol sefydliadau.

Tabl 1. Dyma beth yw Oedolyn Mewn Perygl:

Cymru (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

Oedolyn mewn perygl yw unigolyn 18 oed a hŷn sydd:

- a) yn profi neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, AC;
- b) ag anghenion gofal a chymorth (os yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio) AC;
- c) o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod neu'r risg ohono.

CAM-DRIN AC ESGEULUSTOD

Mae cam-drin yn golygu person neu bersonau eraill yn mynd yn groes i hawliau dynol a sifil unigolyn. Gall ddigwydd mewn unrhyw berthynas a gall arwain at niwed neu gamfanteisio sylweddol ar y person sy'n dioddef. Gall unrhyw un neu bob un o'r mathau canlynol o gam-drin gael eu cyflawni o ganlyniad i friad bwriadol, esgeulustod, hepgoriad neu anwybodaeth.

Ceir gwahanol fathau a phatrymau o gam-drin ac esgeuluso a gwahanol amgylchiadau lle gallant ddigwydd.

Fodd bynnag, mae deddfwriaeth diogelu ym mhob gwlad gartref yn rhestru categorïau o gam-drin yn wahanol, ond maent i gyd yn cynnwys y mathau canlynol o gam-drin:

- Corfforol
- Rhywiol
- Seicolegol
- Esgeulustod
- Ariannol.

Gall cam-drin ddigwydd mewn unrhyw berthynas ac mae llawer o gyd-destunau lle gallai cam-drin ddigwydd; e.e. Cam-drin sefydliadol, Cam-drin Domestig, Priodas dan Orfod, Masnachu mewn Pobl, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio Rhywiol, Cyffurlinellau, Radicaleiddio, Troseddau Casineb, Troseddau Cyfeillio, Seibrfwlio, Sgamiau. Enwir rhai o'r rhain yn benodol yn neddfwriaeth y gwledydd cartref.

Gall cam-drin ddigwydd mewn cyd-destun chwaraeon a gallai'r person sy'n achosi niwed fod yn unrhyw berson arall. Er enghraifft: aelod o staff, hyfforddwr, gwirfoddolwr, cyfranogwr neu gefnogwr.

Mae rhai enghreifftiau o gam-drin mewn chwaraeon yn cynnwys y canlynol:

- Aflonyddu ar gyfranogwr oherwydd ei anabledd (ymddangosiadol) neu nodweddion gwarchoddedig eraill.
- Peidio â diwallu anghenion y cyfranogwr e.e. hyfforddiant heb seibiant angenrheidiol.
- Hyfforddwr yn taro athletwr yn fwriadol.
- Un cyfranogwr elitaidd yn rheoli athletwr arall gyda bygythiadau o dynnu'n ôl o'u partneriaeth.
- Swyddog yn anfon negeseuon testun rhywiol nad oes croeso iddynt at gyfranogwr ag anableddau dysgu.
- Cyfranogwr yn bygwth cyfranogwr arall gyda niwed corfforol ac yn ei feio'n gyson am berfformiad gwael.

Gall cam-drin neu esgeulustod y tu allan i chwaraeon gael ei gyflawni gan y canlynol:

- Priod, partner neu aelod o'r teulu.
- Cymdogion neu breswylwyr .
- Ffrindiau, cydnabod neu ddieithriaid.
- Pobl sy'n camfanteisio'n fwriadol ar oedolion maent yn eu hystyried fel oedolion agored i niwed.
- Staff cyflogedig, gweithwyr proffesiynol neu wirfoddolwyr sy'n darparu gofal a chymorth.

Yn aml mae'r oedolyn yn adnabod y troseddwr a gall fod mewn swydd o ymddiriedaeth a/neu fod â phŵer.

Tabl 2

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Oedolion ym mhob Gwlad Gartref yn diffinio categorïau o gam-drin a niwed i oedolion fel a ganlyn.

Cymru (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

- Corfforol
- Rhywiol
- Seicolegol
- Esgeulustod
- Ariannol.

ARWYDDION A DANGOSYDDION O GAM-DRIN AC ESGEULUSTOD

Gall oedolyn ymddiried mewn aelod o staff, hyfforddwr, gwirfoddolwr neu gyfranogwr arall ei fod yn cael ei gam-drin y tu mewn neu'r tu allan i leoliad y sefydliad. Yn yr un modd, efallai y bydd eraill yn amau bod hyn yn digwydd.

Mae llawer o arwyddion a dangosyddion a allai awgrymu bod rhywun yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Efallai bod esboniad arall, ond ni ddylid eu hanwybyddu. Mae'r arwyddion a'r symptomau'n cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:

- Cleisiau neu anafiadau heb esboniad – neu ddiffyg sylw meddygol pan fo anaf yn bresennol.
- Eiddo neu arian person yn mynd ar goll.
- Person ddim yn mynychu / mwynhau sesiynau mwyach. Efallai eich bod wedi sylwi bod cyfranogwr mewn tîm wedi bod ar goll o'r sesiynau ymarfer ac nad yw'n ymateb i negeseuon atgoffa gan aelodau'r tîm neu'r hyfforddwyr.
- Rhywun yn colli neu ennill pwysau / edrych yn flêr. Gallai hwn fod yn chwaraewr y mae ei ymddangosiad yn mynd yn flêr, nid yw'n gwisgo cit chwaraeon addas ac mae dirywiad mewn hylendid.
- Newid yn ymddygiad neu hyder person. Er enghraifft, cyfranogwr yn edrych yn dawel neu yn ei gragen pan ddaw ei frawd i'w gasglu o sesiynau, o gymharu â'i gynorthwy-ydd personol, y mae'n ei gyfarch â gwên.
- Hunan-niwed.
- Ofn grŵp arbennig o bobl neu unigolyn.
- Rhiant / gofalwr bob amser yn siarad ar ran y person heb roi cyfle iddo wneud ei ddewisiadau ei hun.
- Efallai y bydd yn dweud wrthyh chi / person arall ei fod yn cael ei gam-drin – h.y. datgeliad.

EGWYDDOR LLESIANT

Mae llwyddiant chwaraeon, o ran helpu pobl i gyflawni eu potensial, manteisio i'r eithaf ar dalent bresennol, a denu pobl newydd i chwaraeon yn dibynnu ar roi pobl – eu diogelwch, eu llesiant a'u lles – wrth wraidd yr hyn mae chwaraeon yn ei wneud. Adroddiad Annibynnol i'r Llywodraeth - Dyletswydd o Ofal mewn Chwaraeon - Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL.

Mae'r cysyniad o 'lesiant' wedi'i wau drwy ddeddfwriaeth y DU ac mae'n rhan o'r Gyfraith am sut mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Mae ein llesiant yn cynnwys ein hiechyd meddyliol a chorfforol, ein perthnasoedd, ein cysylltiad â'n cymunedau a'n cyfraniad at gymdeithas.

Mae gallu byw heb gam-drin ac esgeulustod yn elfen allweddol o lesiant.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod bod asiantaethau statudol wedi gweithredu'n annheg yn y gorffennol ar adegau. Er enghraifft, symud oedolyn mewn perygl o'i gartref ei hun pan oedd ffyrdd eraill o atal niwed. Yng ngeiriau Ustus Mumby 'What good is it making someone safe when we merely make them miserable?' What Price Dignity? (2010).

Am y rheswm hwnnw rhaid i unrhyw gamau gweithredu i ddiogelu oedolyn ystyried ei lesiant yn ei gyfanrwydd a bod yn gymesur â'r risg o niwed.



DIOGELU PERSON GANOLOG

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cydnabod bod oedolion yn gwneud dewisiadau a allai olygu bod un rhan o'n llesiant yn dioddef ar draul un arall – er enghraifft, rydym yn symud oddi wrth ffrindiau a theulu i gael swydd well. Yn yr un modd, gall oedolion ddewis peryglu eu diogelwch personol; er enghraifft, darparu gofal i bartner â dementia sy'n ymosodol pan fydd yn drysu neu'n orbryderus.

Ni all yr un ohonom wneud y dewisiadau hyn ar ran oedolyn arall. Os ydym yn cefnogi rhywun i wneud dewisiadau am ei ddiogelwch ei hun, mae angen i ni ddeall 'Beth sy'n bwysig' iddo a pha ganlyniadau mae eisiau eu cyflawni o unrhyw gamau y mae asiantaethau'n eu rhoi ar waith i'w helpu i amddiffyn ei hun.

Mae'r cysyniad o 'Ddiogelu Person Ganolog' / 'Gwneud Diogelu'n Personol' yn golygu cynnwys y person mewn sgwrs am y ffordd orau o ymateb i'w sefyllfa mewn ffordd sy'n gwella ei gyfranogiad, ei ddewis a'i reolaeth, yn ogystal â gwella ansawdd ei fywyd, ei lesiant a'i ddiogelwch. Mae sefydliadau'n gweithio i gefnogi oedolion i gyflawni'r canlyniadau maent eu heisiau drostynt eu hunain. Rhaid ystyried barn, dymuniadau, teimladau a chredoau'r oedolyn wrth wneud penderfyniadau am sut i'w cefnogi i fod yn ddiogel. Efallai y bydd llawer o wahanol ffyrdd o atal niwed pellach. Bydd gweithio gyda'r unigolyn yn golygu bod y camau a weithredir yn ei helpu i ddod o hyd i'r ateb sy'n iawn iddo ef. Hefyd mae trin pobl â pharch, gwella eu hurddas a chefnogi eu gallu i wneud penderfyniadau yn helpu i hyrwyddo ymdeimlad pobl o hunan-werth ac yn cefnogi adfer wedi cam-drin.

Os bydd unigolyn yn cael anhawster mynegi ei farn a'i ddymuniadau, gall eiriolwr ei gefnogi neu ei gynrychioli. Gall fod yn aelod diogel o'r teulu neu ffrind o'i ddewis neu eiriolwr proffesiynol (o sefydliad trydydd sector fel rheol).

Table3: Egwyddorion Diogelu Oedolion yn ein gwlad gartref:

Cymru (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)

Dyma egwyddorion y Ddeddf:

- **Cyfrifoldeb** – Mae diogelu yn gyfrifoldeb pawb.
- **Llesiant** – Rhaid i unrhyw gamau gweithredu ddiogelu llesiant yr unigolyn.
- **Dull person ganolog o weithredu** - Deall pa ganlyniadau mae'r oedolyn yn dymuno eu cyflawni a beth sy'n bwysig iddo.
- **Llais a rheolaeth** – Disgwyl i bobl wybod beth sydd orau iddyn nhw a'u cefnogi i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eu bywydau.
- **Iaith** – Gwneud cynnig gweithredol i ddefnyddio'r Gymraeg a defnyddio cyfeithwyr proffesiynol lle mae angen ieithoedd eraill.
- **Atal** – Mae'n well gweithredu cyn i niwed ddigwydd.

GALLUEDD MEDDYLIOL A GWNEUD PENDERFYNIADAU

Rydym yn gwneud llawer o benderfyniadau bob dydd, yn aml heb sylweddoli. Mae Cyfraith y DU yn tybio bod gan bawb dros 16 oed y gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain, oni bai y profir na allant wneud hynny. Mae hefyd yn rhoi'r hawl i ni wneud unrhyw benderfyniad y mae angen i ni ei wneud ac yn rhoi'r hawl i ni wneud ein penderfyniadau ein hunain hyd yn oed os yw eraill yn ystyried eu bod yn annoeth.

Rydym yn gwneud cymaint o benderfyniadau fel ei bod yn hawdd cymryd y gallu hwn yn ganiataol. Er mwyn gwneud penderfyniad, mae'r Gyfraith yn dweud bod angen y canlynol:

- Deall gwybodaeth.
- Ei chofio'n ddigon hir.
- Meddwl am yr wybodaeth.
- Cyfathrebu ein penderfyniad.



Gall gallu unigolyn i wneud hyn gael ei effeithio gan bethau fel anabledd dysgu, dementia, anghenion iechyd meddwl, anaf a gafwyd i'r ymennydd a salwch corfforol

Mae gan y rhan fwyaf o oedolion y gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain o gael y gefnogaeth briodol, fodd bynnag, mae gan rai oedolion ag anghenion gofal a chymorth brofiad o bobl eraill yn gwneud penderfyniadau amdanynt ac ar eu rhan.

Dim ond penderfyniadau syml fel crys-T pa liw i'w wisgo y gall rhai pobl eu gwneud, neu dim ond os treulir llawer o amser yn eu cefnogi i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt y gallant wneud penderfyniad. Os oes gan rywun anabledd sy'n golygu bod arno angen cymorth i ddeall neu wneud penderfyniad, rhaid darparu hyn. Ni all nifer bach o bobl wneud unrhyw benderfyniadau o gwbl. Gelwir methu gwneud penderfyniad yn "ddiffyg galluedd meddyliol".

Mae galluedd meddyliol yn cyfeirio at y gallu i wneud penderfyniad ar yr adeg y mae angen penderfyniad. Gall galluedd meddyliol person newid. Os yw'n ddiogel / bosibl, dylid aros nes eu bod yn gallu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad, neu wneud y penderfyniad eu hunain.

Er enghraifft:

- Efallai na fydd person ag epilepsi yn gallu gwneud penderfyniad ar ôl cael ffit.
- Efallai na fydd rhywun sy'n orbryderus yn gallu gwneud penderfyniad bryd hynny.
- Efallai na fydd person yn gallu ymateb mor gyflym os yw newydd gymryd meddyginiaeth sy'n achosi blinder.

Mae Galluedd Meddyliol yn bwysig i ddiogelu am sawl rheswm. Cam-drin yw peidio â chael gwneud penderfyniadau y mae person yn abl i'w gwneud. Er enghraifft, efallai y bydd oedolyn anabl eisiau cymryd rhan mewn gweithgaredd ond nid yw ei riant, sy'n ofalwr iddo, yn caniatáu iddo wneud hynny ac ni fydd y cymorth y bydd arno ei angen yn cael ei roi. I'r gwrthwyneb, efallai nad yw'n ymddangos bod yr oedolyn yn elwa o weithgaredd y mae pobl eraill yn mynnu ei fod yn ei wneud.

Sefyllfa arall yw lle mae oedolyn yn cael ei gam-drin ac mae arno ofn canlyniadau mynd yn groes i farn y sawl sy'n ei gam-drin. Caiff hyn ei gydnabod yn y gyfraith fel gorfodaeth a gellir ystyried nad oes gan berson alluedd meddyliol am na all wneud 'penderfyniadau rhydd a gwybodus'.

Rhaid ystyried Galluedd Meddyliol hefyd pan gredwn y gall cam-drin neu esgeulustod fod yn digwydd. Mae'n bwysig sicrhau bod gan 'oedolyn mewn perygl' ddewisiadau yn y camau gweithredu a roddir ar waith i'w ddiogelu, gan gynnwys a yw am i bobl eraill gael gwybod am yr hyn sydd wedi digwydd ai peidio. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, efallai na fydd gan yr oedolyn y galluedd meddyliol i ddeall y dewis neu i ddweud ei farn wrthyhch.

Mae gan bob gwlad gartref ddeddfwriaeth sy'n disgrifio pryd a sut gallwn wneud penderfyniadau ar ran pobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae'r egwyddorion yr un fath.

- Dim ond os na allant wneud hynny drostynt eu hunain ar yr adeg y mae angen y penderfyniad y gallwn wneud penderfyniadau ar ran pobl eraill.
- Os gall y penderfyniad aros, arhoswch – e.e. i gael help i helpu'r person i wneud ei benderfyniad, neu hyd nes y gall ei wneud ei hun.
- Os oes rhaid i ni wneud penderfyniad ar ran rhywun arall, mae'n rhaid i ni wneud y penderfyniad er ei les gorau (er ei fudd) ac ystyried yr hyn rydym yn ei wybod am ei ddewisiadau a'i ddymuniadau.
- Os bydd y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gadw pobl yn ddiogel yn eu cyfyngu, rhaid i ni feddwl am ffordd o wneud hynny sy'n cyfyngu cyn lleied â phosibl ar eu rhyddid a'u hawliau.

Gellir goresgyn llawer o anawsterau posibl wrth wneud penderfyniadau drwy baratoi. Fel rheol, bydd rhywun yn dod gyda pherson sydd angen cymorth i'w helpu i wneud penderfyniadau wrth gymryd rhan mewn sefydliad chwaraeon e.e. aelod o'r teulu neu ofalwr ffurfiol y mae ei rôl yn cynnwys ei gefnogi i wneud penderfyniadau.

Mae'n arfer da cael cymaint o wybodaeth am y person â phosibl. Bydd gan rai pobl ag anghenion gofal a chymorth 'Broffil un dudalen' neu ddogfen 'Dyma fi' sy'n disgrifio pethau pwysig amdanynt. Bydd rhai o'r pethau hynny'n ymwneud â sut i gefnogi'r person, ei arferion, dewisiadau bwyd a diod ac ati, ond byddant hefyd yn cynnwys y pethau mae'n hoffi a ddim yn hoffi eu gwneud. Mae hefyd yn bwysig cael cytundeb gyda'r person sydd wedi

cofrestru'r oedolyn yn y gweithgaredd chwaraeon ynghylch sut gwneir gwahanol fathau o benderfyniadau o ddydd i ddydd.

Os credir bod person sy'n cael llawer o anhawster gwneud ei benderfyniadau ei hun yn cael ei gam-drin neu ei esgeuloso, bydd angen i chi gyfeirio'r sefyllfa at yr Awdurdod Lleol, a dylai hyn olygu bod gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol yn gwneud asesiad o alluedd meddyliol a / neu gael y cymorth sydd ei angen ar y person i wneud penderfyniadau.

Efallai y bydd adegau pan fydd angen i sefydliad chwaraeon wneud penderfyniadau ar ran unigolyn mewn argyfwng. Gallai penderfyniadau a wneir er mwyn diogelu oedolyn na all wneud penderfyniad drosto'i hun gynnwys y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth am bryderon diogelu gyda phobl a all helpu i'w ddiogelu.
- Ei atal rhag bod mewn cysylltiad â'r person sy'n achosi niwed.

COFNODI A RHANNU GWYBODAETH

Rhaid i bob sefydliad chwaraeon gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae gwybodaeth am bryderon ynghylch cam-drin yn cynnwys data personol. Felly, mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â'r sail dros brosesu a rhannu gwybodaeth am bryderon ynghylch cam-drin.

Mae prosesu gwybodaeth yn cynnwys cadw cofnodion. Rhaid i gofnodion sy'n ymwneud â phryderon diogelu fod yn fanwl gywir ac yn berthnasol. Rhaid eu storio'n gyfrinachol gyda mynediad i'r rhai sydd angen gwybod yn unig.

Mae rhannu gwybodaeth, gyda'r bobl briodol, yn ganolog i arfer da wrth ddiogelu oedolion. Fodd bynnag, rhaid i'r rhannu gwybodaeth fod gyda'r rhai sydd 'angen gwybod' yn unig, bob amser. NID yw hyn yn cynnwys priod, partner, oedolyn, plentyn, gofalwr di-dâl neu gyflogedig yn awtomatig. Dim ond gyda theulu a ffrindiau a / neu ofalwyr ddylid rhannu gwybodaeth, gyda chaniatâd yr oedolyn, neu os nad oes gan yr oedolyn y galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw a bod angen i deulu / ffrindiau / gofalwyr wybod er mwyn helpu i gadw'r person yn ddiogel.

Nid atal rhannu gwybodaeth yw pwrpas deddfwriaeth Diogelu Data, ond sicrhau mai dim ond mewn ffordd briodol y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu. Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu rhannu gwybodaeth o fewn sefydliad. Er enghraifft:

- Gall unrhyw un sydd â phryder am niwed roi gwybod i berson priodol yn yr un sefydliad.
- Gall cyfarfodydd rheoli achosion gael eu cynnal i gytuno i'r sefydliad gydlynu camau gweithredu.

Hefyd mae llawer o sefyllfaoedd lle mae'n gwbl gyfreithiol rhannu gwybodaeth am bryderon diogelu oedolion y tu allan i'r sefydliad. Yn bwysig, gellir rhannu gwybodaeth bersonol gyda chydsyniad yr oedolyn dan sylw. Fodd bynnag, efallai na fydd yr oedolyn bob amser am i wybodaeth gael ei rhannu. Gall hyn fod oherwydd ei fod yn ofni sgil-effeithiau gan y person sy'n achosi niwed neu'n ofni y bydd yn colli rheolaeth ar ei sefyllfa i gyrff statudol, neu am ei fod yn teimlo'n dwp neu'n teimlo embaras. Dylid parchu ei ddymuniadau oni bai fod rhesymau cryfach dros rannu gwybodaeth.

Mae'r amgylchiadau pan fydd angen i ni rannu gwybodaeth heb ganiatâd yr oedolyn yn cynnwys y canlynol:

- nid yw'n ddiogel cysylltu â'r oedolyn i gael ei ganiatâd – h.y. gallai ei roi ef neu'r person sy'n cysylltu mewn perygl pellach.
- rydych chi'n credu ei fod ef neu rywun arall mewn perygl, gan gynnwys plant.
- rydych chi'n credu bod yr oedolyn yn cael ei orfodi neu ei fod o dan bwysau.
- mae angen cysylltu â'r heddlu i atal trosedd, neu i roi gwybod bod trosedd ddifrifol wedi'i chyflawni.
- nid oes gan yr oedolyn alluedd meddyliol i gydsynio i rannu gwybodaeth amdano.
- mae gan y person sy'n achosi niwed anghenion gofal a chymorth.
- mae'r pryderon yn ymwneud ag oedolyn mewn perygl sy'n byw yng Nghymru neu Ogledd Iwerddon (lle mae dyletswydd i hysbysu'r Awdurdod Lleol).

Pan mae gwybodaeth yn cael ei rhannu heb gydsyniad yr oedolyn, rhaid esbonio hyn iddo, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, a dylai unrhyw gamau pellach ei gynnwys yn llawn o hyd.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch a ddylid rhannu gwybodaeth, gofynnwch am gyngor e.e. gofyn am gyngor cyfreithiol a / neu gysylltu â'r Awdurdod Lleol ac egluro'r sefyllfa heb roi manylion personol am y person mewn perygl neu'r person sy'n achosi niwed.

Rhaid cofnodi unrhyw benderfyniad i rannu neu beidio â rhannu gwybodaeth gyda pherson neu sefydliad allanol, ynghyd â'r rhesymau dros hynny.

GWAITH AMLASiantaeth

Mae deddfwriaeth diogelu oedolion yn rhoi'r rôl arweiniol am ddiogelu oedolion i'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall diogelu gynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau.

Efallai y bydd angen i gyrff chwaraeon gydweithredu â'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu, gan gynnwys i wneud y canlynol:

- Rhoi mwy o wybodaeth am y pryder rydych chi wedi'i godi.
- Darparu lleoliad diogel i'r oedolyn gyfarfod â gweithwyr proffesiynol eraill e.e. yr Heddlu / Gweithwyr Cymdeithasol / Eiriolwyr.
- Mynychu cyfarfodydd diogelu.
- Cydlynu ymchwiliadau mewnol (e.e. cwynion, disgyblu) gydag ymchwiliadau gan yr heddlu neu asiantaethau eraill.
- Rhannu gwybodaeth am ganlyniadau ymchwiliadau mewnol.
- Darparu amgylchedd diogel i'r oedolyn barhau â'i weithgarwch chwaraeon / ei rôl yn y sefydliad.

ADRAN 3: ATODIADAU

ATODIAD 1 – DISGRIFIAD SWYDD ENGHREIFFTIOL: ARWEINYDD DIOGELU

Y person dynodedig mewn sefydliad chwaraeon sy'n bennaf gyfrifol am sefydlu gweithdrefnau i ddiogelu oedolion mewn perygl, am gefnogi arweinwyr lles /diogelu clybiau, sir a rhanbarthol, os yw hynny'n berthnasol, ac am reoli pryderon am oedolion mewn perygl.

Mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau'n cynnwys y canlynol:

- Gweithio gydag eraill yn y sefydliad i greu amgylchedd cynhwysol cadarnhaol yn y gamp.
- Chwarae rôl arweiniol wrth ddatblygu a sefydlu dull y sefydliad o ddiogelu oedolion a chynnal ac adolygu cynllun gweithredu'r sefydliad ar gyfer diogelu oedolion yn unol â deddfwriaeth gyfredol ac arfer gorau.
- Cydlynu'r gwaith o ddsbarthu'r polisi, y gweithdrefnau a'r adnoddau diogelu oedolion i bob rhan o'r sefydliad.
- Cyfrannu at sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau eraill yn gyson ag ymrwymiad y sefydliad i ddiogelu oedolion.
- Cynghori ar anghenion hyfforddi'r sefydliad a datblygu ei strategaeth hyfforddi.
- Rheoli a derbyn adroddiadau am achosion o arfer gwael a cham-drin y rhoddir gwybod amdanynt i'r sefydliad – gan gynnwys system gofnodi briodol.
- Cefnogi'r cadeirydd i gydlynu'r broses rheoli achosion.
- Rheoli'r cyswllt ag asiantaethau allanol a'r atgyfeiriadau at y rhain, er enghraifft, gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a'r heddlu.
- Creu pwynt cyswllt canolog ar gyfer unigolion ac asiantaethau mewnol ac allanol sy'n pryderu am ddiogelwch oedolion yn y sefydliad.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn cyfarfodydd allanol sy'n ymwneud â diogelu.

ATODIAD 2 – GRWPIAU RHEOLI ACHOSION

Mae Grwpiau Rheoli Achosion yn cynnwys nifer penodol o unigolion sydd â sgiliau, profiad, gwybodaeth a/neu statws perthnasol yn y sefydliad ac maent yn cynnwys o leiaf un aelod sydd ag arbenigedd ym maes diogelu oedolion. Mae angen i rôl a phwerau gwneud penderfyniadau'r grŵp gael eu hymgorffori yn strwythur llywodraethu'r sefydliad a bod yn gysylltiedig â swyddogaethau sefydliadol cysylltiedig fel codau ymddygiad, a'r polisi a'r gweithdrefnau disgyblu.

Dylai'r uwch dîm rheoli a Bwrdd Hoci Cymru dderbyn adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Achosion yn crynhoi'r achosion sydd wedi cael sylw a'u canlyniadau, yn ogystal ag unrhyw faterion y mae angen i Hoci Cymru weithredu yn eu cylch e.e. newidiadau i bolisi neu weithdrefnau.

Dylai Grwpiau Rheoli Achosion fod â chylch gorchwyl clir. Gallant fod yn 'bwyllgorau sefydlog' sy'n cyfarfod yn rheolaidd neu gellir eu galw ynghyd yn ôl yr angen.

Mae swyddogaethau Grŵp Rheoli Achosion yn cynnwys y canlynol:

- dilysu unrhyw gamau gweithredu a roddwyd ar waith eisoes gan Swyddog Diogelu Arweiniol.
- asesu a chytuno ar ymateb ar unwaith i achos diogelu (a yw'n ymddangos bod achos i'w ateb?).
- nodi 'llwybr' priodol ar gyfer achos (e.e. camau mewnol/disgyblu yn unig neu gyfeirio at asiantaethau statudol ynghyd â chamau mewnol/disgyblu).
- penderfynu ar ba lefel (o leol i genedlaethol) y bydd y sefydliad yn delio â'r pryder.
- ystyried yr angen am orchymyn gwahardd dros dro/interim (mae Grŵp Rheoli Achosion rhai sefydliadau yn gwahardd dros dro yn uniongyrchol, tra bo eraill ond yn gallu gwneud argymhellion i'w grŵp disgyblu).
- adolygu cynnydd achos(ion).
- adnabod/cyfathrebu'r dysgu o achosion.

Dylai aelodaeth Grwpiau Rheoli Achosion gynnwys y canlynol:

- Cadeirydd wedi'i ddynodi.
- Ysgrifennydd (yn aml yr Arweinydd Diogelu sydd wedi'i ddynodi).
- Rheolwyr o rannau perthnasol o'r sefydliad os yw hynny'n briodol e.e. Adnoddau Dynol, Aelodaeth, Cyfreithiol.
- Arbenigedd diogelu annibynnol cyfetholedig (e.e. o Gamp arall neu broffesiwn perthnasol fel yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol).

ATODIAD 3 – FFYNONELLAU O WYBODAETH A CHEFNOGAETH

Action on Elder Abuse

Sefydliad cenedlaethol wedi'i leoli yn Llundain. Ei nod yw atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin drwy godi ymwybyddiaeth, annog addysg, hyrwyddo ymchwil a chasglu a dosbarthu gwybodaeth.

Rhif Ffôn: 020 8765 7000

E-bost: enquiries@elderabuse.org.uk

www.elderabuse.org.uk

Ymddiriedolaeth Ann Craft (ACT)

Sefydliad cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth a chyngor am ddiogelu oedolion. Mae gan ACT dîm Diogelu Oedolion mewn Chwaraeon a Gweithgarwch arbenigol i gefnogi'r sector.

Rhif Ffôn: 0115 951 5400

E-bost: Ann-Craft-Trust@nottingham.ac.uk

www.anncrafttrust.org

Llinell Gyngor i Ddynion

Ar gyfer dynion sydd wedi goresio cam-drin domestig.

Rhif Ffôn: 0808 801 0327

Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig LGBT+

Rhif Ffôn: 0800 999 5428

Llinellau Gymorth Cenedlaethol 24 Awr Am Ddim ar gyfer Cam-drin Domestig - Cymru

Llinell Gymorth Byw HebOfn

Rhif Ffôn: 0808 8010 800

Teipio Siarad: 18001 0808 801 0800

Testun: 078600 77 333

Ffederasiwn Rape Crisis Cymru a Lloegr

Lansiwyd Rape Crisis yn 1996 ac mae'n bodoli i ddarparu amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau i alluogi parhad a datblygiad Grwpiau Rape Crisis ledled Cymru a Lloegr.

E-bost: info@rapecrisis.co.uk

www.rapecrisis.co.uk

Respond

Mae Respond yn darparu ystod o wasanaethau i ddioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin rhywiol sydd ag anableddau dysgu a hyfforddiant a chefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio â hwy.

Rhif Ffôn: 020 7383 0700 neu

0808 808 0700 (Llinell Gymorth)

E-bost: services@respond.org.uk

www.respond.org.uk

Stop Hate Crime

Yn gweithio i herio pob math o Droseddau Casineb a gwahaniaethu, yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar hunaniaeth unigolyn. Mae Stop Hate UK yn darparu hysbysiadau a chefnogaeth annibynnol, cyfrinachol a hygyrch i ddioddefwyr, tystion a thrydydd partion.

Gwasanaeth 24 awr:

Rhif Ffôn: 0800 138 1625

Sgwrs ar y We: www.stophateuk.org/talk-to-us/

E-bost: talk@stophateuk.org

Testun: 07717 989 025

Cyfnwid Testun: 18001 0800 138 1625

Drwy'r post: PO Box 851, Leeds LS1 9QS

Ymddiriedolaeth Susy Lamplugh

Mae'r Ymddiriedolaeth yn awdurdod blaenllaw ar ddiogelwch personol. Ei rôl yw lleihau'r niwed a achosir i unigolion ac i gymdeithas drwy ymddygiad ymosodol yn ei holl ffurfiau – corfforol, llafar a seicolegol.

Rhif Ffôn: 020 83921839

Ffacs: 020 8392 1830

E-bost: info@suzylamplugh.org

www.suzylamplugh.org

Cymorth i Ddiodefwyr

Mae'n rhoi cyngor a chymorth ymarferol, cefnogaeth emosiynol a sicrwydd i'r rhai sydd wedi dioddef o effeithiau trosedd.

Rhif Ffôn: 0808 168 9111

www.victimsupport.com

Ffederasiwn Cymorth i Ferched Cymru a Lloegr

Mae Cymorth i Ferched yn elusen trais domestig genedlaethol. Mae hefyd yn gweithredu gwasanaeth help trais domestig ar-lein.

www.womensaid.org.uk/information-support

ymddiriedolaeth ann craft

gweithredu yn erbyn camdriniaeth





HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

RHAGOR O WYBODAETH

Am ragor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar Hoci Cymru Polisi Diogelu Oedolion, cysylltwch â:

Hoci Cymru

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW..

Rhif Ffôn: **0300 300 3126** neu anfonwch e-bost atom ni ar: info@hockeywales.org.uk

www.hockeywales.org.uk

 @HockeyWales

 @hockey_wales

 @HockeyWales